



Pecyn i Gymunedau Byw

Mae parallel.cymru yn gylchgrawn dwyieithog ar-lein
Llyfrau, erthyglau, cyfweiliadau, straeon byrion ac adnoddau ddwyieithog
i'w darllen yn paralel; wedi'i lansio ym mis Tachwedd 2017

Mae gan Parallel.cymru sawl agwedd unigryw:

- Mae pobl yn profi'r Gymraeg ar gontinwwm o alluoedd gwahanol, ond y ffordd draddodiadol o gynhyrchu deunydd yw mewn dull deul.
Trwy gyflwyno deunyddiau darllen ochr yn ochr, yn 'paralel', ac wedi'u graddoli yn ôl hyfedredd, gall siaradwyr a dysgwyr o bob gallu fwynhau darllen a chefnogi'u datblygiad.
- Mae'r wefan yn cynnig persbectifau person cyntaf ar ddefnyddio, arloesi, creu, cyfieithu ac ymchwilio yn yr iaith. Mae gan bawb sy'n defnyddio'r iaith stori i'w hadrodd, ond, mae'r straeon hyn wedi'u gwasgaru dros gannoedd o leoliadau digidol a phapur; ac mae prinder amlwg o adnoddau chwilio ac archifo.
- Wrth gasglu'r erthyglau hyn at ei gilydd mewn un lleoliad llwyddir i greu cyfoeth o ddiwylliant, arloesedd a straeon cyfoes Cymreig.
- Yn wahanol i gylchgronau traddodiadol ble mae erthyglau'n diflannu ar ôl y rhifyn dilynol, mae erthyglau parallel.cymru yn aros ar-lein ac felly'n darparu presenoldeb digidol parhaus sy'n gwneud mwy i chi nag y gall unrhyw gyhoeddwr, adwerthwr neu dudalen cyfryngau cyhoeddus eu gwneud.
- Mae'n rhoi cyfle am bobl o bob math o'r byd Cymry Cymraeg i gyfrannu gan rannau eu profiadau o ddefnyddio'r iaith.
- Mae'n ar gael o unrhyw borwr gwe, unrhyw le yn y byd- does dim angen i ymweld â siop neu aros am y post.
- Mae'n gweithio yn dda ar borwyr gwe ar ffonau symudol a thabledi.
- Does dim angen i dalu neu fewngofnodi.

Mae'r cynnwys gwreiddiol ac unigryw a gyhoeddwyd hyd yn hyn yn cynnwys:

- The Old Red Tongue: Gwyn Griffiths- Cyflwyno'r gorau o lenyddiaeth Gymraeg mewn un gyfrol
- Arthur Conan Doyle's Sherlock Holmes: Y Cylch Brith- The Adventure of the Speckled Band
- Eiry Miles, Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol: Creu cyrsiau newydd ar gyfer dysgu Cymraeg
- Academyddion o Brifysgolion Caerdydd, Bangor, Aberystwyth a Chaergrawnt wedi cyfrannu
- Ferswin dwyieithog o'r darlith Tynged yr Iaith
- Brigyn: Stori Tu ôl i'r Gân, Haleliwia
- Radio 1 a Radio Cymru DJ Huw Stephens: Hyrwyddo cerddoriaeth Gymreig ar draws y DU
- Elin Meek: Cyfieithu llyfrau Roald Dahl i'r Gymraeg
- Dysgwr y Flwyddyn 2017: Ein profiadau
- Dafydd James: Creu'r gerddoriaeth ar gyfer Y Sioe Gerdd- Bae Teigr
- Bethan Gwanas: Creu Blodwen Jones
- Ask Dr Gramadeg: Esbonio Gramadeg Cymraeg yn ddwyieithog gan Mark Stonelake
- Mae llawer o awduron wedi ysgrifennu am eu llyfrau
- Peiriannydd Ben Evans: Dylunio Car Cyflymaf y Byd
- Cwisiau i helpu pobl ymarfer Cymraeg
- Ardaloedd ac adnoddau sydd yn benodol i ddysgwyr

Parallel.cymru

Manteision cyfrannu

Yr wyf yn wastad yn chwilio am bethau diddorol a phobl newydd i gyfrannu, a baswn i ddwlu cydweithio gyda phobl yn rhyngwrwyd y Gymdeithas yr Iaith. Mae'r gylchgrawn yn cynnig ffordd unigryw i bobl ddod i wybod amdanoch ac i ddarllen am yr hyn yr ydych yn ei wneud.

Er enghraifft, mae erthyglau'r awdur enwog David Jandrell yn ymddangos bellach yn y canlyniadau Google a Bing uchaf ar gyfer ei enw a'i lyfr 'Welsh Valley Phrases'. Mae ei gynnwys unigryw ar parallel.cymru yn darparu llawer mwy o ddyfnder a mewnwleidiad nag y gallai unrhyw wefan arall ei chynnig a bydd hyn yn arwain at ymwybyddiaeth bellach ohono a'i waith.

Mae mynediad rhydd i'r holl gynnwys bob amser

Gan fy mod yn gweinyddu'r wefan fel di-elw a heb hysbysebu, nid oes modd i mi dalu am gyfraniadau, ond bydd lluniau, bywgraffiadau a chysylltiadau i'ch lleoliadau digidol personol yn cael eu cynnwys, a byddwch yn cyflwyno eich stori a'ch gwaith i ddarllenwyr ymholgar a chraff ym mhob man.

Pethau i feddwl am wrth gyfrannu

- Pam ydych chi'n ysgrifennu hwn - pwy neu beth mae'r stori'n ei hyrwyddo?
- Pa bwyntiau allweddol ydych chi eisiau i'r darlennydd uniaethu gyda nhw neu eu cofio?
- Pwy yw'r gynulleidfa darged arfaethedig?
- Oes awgrym gyda chi am deitl?
- Pa weithredoedd pellach ydych chi'n eu dymuno- ai eich nod yw i'r darlennydd fynd yn ei flaen i wefan arall?
- Dylai'r cynnwys gael ei rannu'n ddwy: paragraff agoriadol sy'n esbonio'r cynnwys, ac wedyn y prif gynnwys. Fe alla i gynorthwyo gyda'r paragraff agoriadol.
- Oes hyd at 5 gair allweddol ddylai gael eu cynnwys yn yr erthygl i'w helpu i gael ei rhestru mewn porwyr?
- Os ydych chi'n cyflwyno pwnc hollol newydd i'r darlennydd, ystyriwch ei drefnu'n is-adrannau clir, fel yn Cari Powell: Mater Tywyll- Y Bydysawd Cudd <http://parallel.cymru/?p=2703>.
- Mae pob erthygl yn cael eu trefnu yn ôl cywair yr iaith; gallwch ysgrifennu mewn ffordd syml, anffurfiol neu ffurfiol.
- Does dim dyddiad cyhoeddi gyda parallel.cymru, felly dych chi'n gallu mwynhau'r proses o ysgrifennu.
- Mae'n syniad da i sicrhau y destun gyda Cysill <http://www.cysgliad.com/cysill/arlein>.
- Ar ôl derbyn yr erthygl, fe wna i ei gosod hi yn Wordpress a chreu linc preifat i chi allu ei phrawfddarllen.
- Ar ôl i chi gadarnhau eich bod yn hapus gyda'r gwaith terfynol, fe wna i greu linc parhaol yn y ffurflen parallel.cymru/?p=1234 a rhannu ar Twitter.

I drafod mwy, cysylltu â fi: parallel.cymru@gmail.com

Rheolwr y prosiect: Neil Rowlands

Rwy'n dod o Gaerdydd ac Abertawe ac mae gennyf gefndir mewn TG, dylunio graffig a gwe, a rheoli elusennau bach, ac mae gwirfoddoli gyda fy Menter Iaith leol wedi rhoi'r sgiliau i mi allu rheoli'r prosiect hwn. Mae dysgu Cymraeg yn ystod y bedair blynedd ddiwethaf wedi bod yn brofiad sydd wedi newid fy mywyd am byth, ac rwy'n hapus i gynnig y cyfle hwn er lles y gymuned.

↳ parallel.cymru twitter.com/parallel_cymru

